Busnes Lefel 3 BTEC (Llawn-Amser)

Mae'r Diploma yn cymryd dwy flynedd o astudio. Ar ddiwedd blwyddyn 1 bydd myfyrwyr wedi cyflawni naill ai Tystysgrif Estynedig BTEC neu Ddiploma Sylfaen gan ganiatáu iddynt symud ymlaen i flwyddyn 2. Bydd myfyrwyr yn cael eu cyfweld cyn eu derbyn i benderfynu a fyddant yn astudio ar gyfer y Diploma neu'r Dystysgrif ym mlwyddyn 1.

Gofynion Mynediad

Tystysgrif Estynedig BTEC Lefel 3 mewn Busnes
5 TGAU i gyd
Rhaid bod gan fyfyrwyr naill ai TGAU Saesneg neu Fathemateg gyda gradd C neu uwch ac ymrwymo i ail-sefyll y TGAU coll.

Diploma Sylfaen BTEC Lefel 3 mewn Busnes
6 TGAU i gyd
Rhaid bod gan fyfyrwyr Mathemateg a TGAU Saesneg gyda gradd C neu'n uwch.

Rhagolygon Gyrfa

Bydd cwblhau blwyddyn 1 yn llwyddiannus yn galluogi myfyrwyr i gael eu gwahodd i symud ymlaen i Flwyddyn 2 i ddatblygu eu hastudiaethau gyda'r bwriad o symud ymlaen i'r Brifysgol neu gyflogaeth amser llawn. Mae'r rhan fwyaf o fyfyrwyr yn symud ymlaen i addysg uwch i astudio graddau mewn Busnes, Cyllid neu bynciau cysylltiedig fel y Gyfraith.

Mae llawer o fyfyrwyr yn anelu at yrfaoedd ym maes cyllid fel cyfrifeg neu fancio ond bydd y cymhwyster hwn yn rhoi cefndir busnes eang i chi ar gyfer pob math o rolau gweinyddu, rheoli a busnes.

Modiwlau'r cwrs

Mae'r cwrs yn cynnwys ystod o unedau gan gynnwys Recriwtio, Marchnata, Cyllid, Rheoli Digwyddiadau, Gwasanaeth Cwsmer a Strategaeth Fusnes.

Bydd pob myfyriwr hefyd yn ymgymryd â chymhwyster Bagloriaeth Uwch Cymru, sydd wedi'i integreiddio i'r cwrs.

Asesiad

Bydd asesu yn gyfuniad o aseiniadau gwaith cwrs, arholiadau allanol ac asesiadau rheoledig. Byddwch yn barod yn llawn ar gyfer y rhain.

DULL ASTUDIO
FT

LLEOLIAD
Coleg Y Drenewydd - 01686 614200

Coleg Castell-nedd - 01639 648000

HYD Y CWRS
2Y